
ASESIAD EFFAITH Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu hefyd wedi'i gynnwys yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae rhwymedigaeth statudol arnom hefyd i ystyried effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg yn llawn. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Mae i strategaeth Cymraeg 2050 dair thema gydgysylltiedig:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas gweithgareddau a all effeithio ar yr iaith.

Fel rheol gyffredinol, pe gallai eich polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac, felly, ar y Gymraeg.

1. Rhif cyfeirnod Asesiad Effaith y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

03/10/2026

2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026

Mae gan y cynnig gydberthynas niwtral i gadarnhaol ag amcanion Cymraeg 2050 ac uchelgais Llywodraeth Cymru i alluogi siaradwyr Cymraeg i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy alluogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle bydd darparwr gwasanaeth maethu presennol yn trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw, mae'r cynnig yn cefnogi sefydlogrwydd a pharhad o fewn gwasanaethau maethu.

Nid yw'r cynnig yn newid hawliau, dyletswyddau na safonau gwasanaeth presennol o ran y Gymraeg. Fodd bynnag, drwy helpu i osgoi achosion diangen o darfu ar leoliadau maeth, gallai helpu i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gofal a chymorth yn newis iaith plentyn, gan gynnwys y Gymraeg, lle mae hyn yn bwysig i'w hunaniaeth, ei lesiant a'i ymdeimlad o berthyn.

Er nad yw'r cynnig yn creu cyfleoedd newydd yn uniongyrchol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, nid yw'n cyflwyno unrhyw rwystrau i gael mynediad at wasanaethau maethu a'u cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a gall helpu i gynnal lleoliadau a threfniadau cymorth presennol sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mwy na geiriau yw cynllun Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol wrth wraidd y strategaeth, gan roi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod y claf neu ddefnyddiwr y gwasanaeth yn gorfod gofyn amdanynt. Nod Mwy na geiriau yw gwella gofal drwy gyfrwng y Gymraeg a chanlyniadau i siaradwyr Cymraeg.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac esboniwch sut y byddwch yn ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol yn eich ateb i'r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg[1] (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith niwtral i gadarnhaol ar gymunedau sy'n siarad Cymraeg. Drwy alluogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle bydd darparwr gwasanaeth maethu presennol yn trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw, mae'n cefnogi sefydlogrwydd a pharhad i blant a theuluoedd maeth. Gall lleoliadau sefydlog helpu plant i gynnal cysylltiadau teuluol, cymunedol a diwylliannol pwysig, gan gynnwys cysylltiadau â chymunedau sy'n siarad Cymraeg lle bo cymunedau o'r fath yn bodoli eisoes. Nid yw'r cynnig yn newid y ffordd y caiff gwasanaethau maethu eu trefnu na'u darparu ac, felly, ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol ar gynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg.

- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith uniongyrchol ar addysg cyfrwng Cymraeg nac ar gyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg. Fodd bynnag, drwy gefnogi sefydlogrwydd lleoliadau a lleihau'r risg o darfu ar leoliadau maeth presennol, gallai helpu plant i aros yn eu lleoliadau addysgol presennol, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg lle y bo'n briodol. Gall cynnal lleoliadau sefydlog gefnogi parhad mewn perthynas â dysgu, cydberthnasau a chynnydd addysgol. Gan nad yw'r cynnig yn newid darpariaeth addysg na mynediad at gyfleoedd dysgu Cymraeg, ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg nac ar gyfleoedd dysgu Cymraeg.

- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau[2] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, gwasanaethau digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

Nid yw'r cynnig yn newid hawliau, dyletswyddau na safonau gwasanaeth presennol o ran y Gymraeg sy'n berthnasol i wasanaethau maethu. Bydd gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd drwy ddarparwyr maethu yn parhau i fod ar gael

---

[1] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clòs, yn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol ac yn gymunedau rhithwir sy'n ymestyn dros leoedd daearyddol.

[2] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg a sicrhau cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

ar ôl trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw. Drwy gefnogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth a threfniadau maethu, gallai'r cynnig helpu i gynnal trefniadau cymorth a gofal Cymraeg sy'n bodoli eisoes i blant a gofalwyr maeth sy'n dewis derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan nad yw'r cynnig yn newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu na'u defnyddio, ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol ar argaeledd gwasanaethau Cymraeg.

- Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac y gallant gael gafael arnynt a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd gennych i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau sydd â diddordeb yn y Gymraeg?

Bydd y dyletswyddau a'r safonau sy'n bodoli eisoes o ran y Gymraeg yn parhau i fod yn berthnasol i sefydliadau perthnasol, a bydd gwybodaeth am wasanaethau maethu a chymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i gael eu darparu drwy'r sianeli cyfathrebu a'r trefniadau gwasanaeth presennol. Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan natur y cynnig, sy'n ymwneud yn benodol â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth pan fydd darparwr gwasanaeth maethu yn trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw ac nad yw'n newid trefniadau darparu'r gwasanaeth, ei feini prawf cymhwystra, ei hawliau cymorth na'r gofynion o ran y Gymraeg. O ganlyniad, ni nodwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn lleihau mynediad at wasanaethau Cymraeg nac yn creu rhwystrau i siaradwyr Cymraeg.

- Pa dystiolaeth arall a fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

Gallai rhagor o wybodaeth am nifer y gofalwyr maeth a'r plant sy'n siarad Cymraeg y byddai unrhyw gynllun yn y dyfodol i drawsnewid o fod yn ddarparwr er-elw i ddarparwr nid-er-elw yn effeithio arnynt ddarparu cyd-destun ychwanegol ar gyfer yr asesiad. Byddai adborth gan blant, gwasanaethau maethu a gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg yn ystod y cam gweithredu hefyd yn helpu i nodi unrhyw effeithiau annisgwyl ar ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gwasanaethau maethu. Fodd bynnag, o ystyried natur gyfyngedig a thechnegol y cynnig, sy'n ymwneud yn benodol â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth, ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar y Gymraeg.

- Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Byddwn yn gwybod ei fod wedi llwyddo os gall cymeradwyaethau gofalwyr maeth barhau'n hwylus pan fydd darparwr gwasanaeth maethu presennol yn trawsnewid o

fodel er-elw i fodel nid-er-elw, heb unrhyw darfu diangen ar leoliadau maeth neu drefniadau cymorth. Dylai'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ar hyn o bryd barhau i fod ar gael drwy gydol y broses drawsnewid, heb unrhyw dystiolaeth i ddangos bod llai o wasanaethau ar gael i blant, gofalwyr maeth neu deuluoedd sy'n siarad Cymraeg. Bydd adborth gan ddarparwyr gwasanaethau maethu, gofalwyr maeth a threfniadau goruchwylio rheoleiddiol yn helpu i nodi unrhyw effeithiau anfwriadol ar y ddarpariaeth Gymraeg. At ei gilydd, bydd llwyddiant yn amlwg os bydd gwasanaethau gofal a maethu, ochr yn ochr â gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, yn parhau heb effaith andwyol ar siaradwyr Cymraeg.